| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **21 Mai 2025** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis (PG)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles (DBG)<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC)<br>Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans (PW)<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies (PSCDD) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS)<br>Pennaeth Cyllid Dros Dro, Michelle Reynolds (MR) (ar-lein)<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling (PSC SCHTh) |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|
| PB 067 | Diweddariad pellach ynghylch Proffil Problem a Strategaeth Ffyrdd i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Medi 2025. | **Ar y gweill**<br><br>Wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2025. |
| PB 068 | Diweddariadau chwarterol ynghylch y Warant Plismona Bro a Moderneiddio'r Gweithlu i'w darparu i'r Bwrdd Plismona. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Diweddariadau chwarterol wedi'u hamserlennu ar agenda'r Bwrdd Plismona. |
| PB 069 | Papur i'w rannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn dogfennu'r problemau a brofwyd gyda | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. | Gwnaeth y Prif Weithredwr rannu'r papur â'r Dirprwy Brif Gwnstabl. |

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) nad oedd argymhellion adroddiad adolygiad annibynnol ar ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg a gynhaliwyd ym mis Mai 2025, gan y nodwyd y byddai yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Plismona.

**Cam gweithredu: Ceisio diweddariad gan Linda Williams, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad ynghylch pryd y byddai adroddiad adolygiad annibynnol ar ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ystyried gan arweinwyr adnoddau dynol a phryd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Plismona.**

**3. Pwnc ffocws:**

a) **Y Gynghrair Fforensig**

Cafodd y bwrdd bapur diweddaru gan Bennaeth y Gwasanaethau Fforensig. Cytunwyd ar y cyllid ar gyfer rhaglen y Gynghrair Fforensig ym Mwrdd Cydweithio'r DBG yn 2023 a ddechreuodd wedyn ym mis Ebrill 2024. Y prif ysgogwyr dros gydweithio yn y byd fforensig fu baich cynyddol ansawdd a safonau yn unol â chod ymarfer Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig a safonau cysylltiedig Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO). Mae'r rhain wedi bod, ac yn parhau i fod, yn heriau sylweddol o ran adnoddau a chostau i heddluoedd unigol. Dylai cydweithio yn y maes hwn wella arbedion maint yr heddlu, gan ganiatáu i'r heddlu wneud pethau unwaith er budd llawer a dod o hyd i ddatrysiad mwy gwydn, costeffeithiol, a chynaliadwy.

Nid yw Gwasanaethau Fforensig Heddlu Dyfed-Powys erioed wedi cael system rheoli achosion fforensig (system rheoli cynnwys) bwrpasol ac o'r herwydd mae'r busnes wedi cael ei reoli gan ddefnyddio llu o daenlenni a chronfeydd data. Mae system rheoli cynnwys ar gyfer gwaith fforensig bellach wedi'i gaffael ar gyfer rhanbarth de Cymru ac mae gwaith wedi dechrau i hyfforddi staff allweddol a ffurfweddu'r system.

Mae holl unedau fforensig digidol de Cymru wedi cydweithio i greu cronfa ddata ddilys o ddyfeisiau prawf i'w defnyddio ledled y rhanbarth. Cwblhawyd y gwaith yn llawer cyflymach a rhatach nag y byddai pe bai

wedi'i wneud yn annibynnol.  Dylai ardaloedd eraill elwa o'r mathau hyn o weithgareddau yn y dyfodol.

Mae map trywydd y rhaglen yn hynod uchelgeisiol.  Mae'r dasg o ailddirwyn ac alinio prosesau fforensig, yn enwedig ar gyfer meysydd achrededig sy'n aeddfed yn unigol, yn hynod heriol.  Mae yna enillion hirdymor clir i'w cyflawni gan y rhaglen, ond mae angen buddsoddiad hirdymor.

Mae'r rhaglen wedi creu ffrydiau gwaith newydd sylweddol ar gyfer staff allweddol o fewn yr heddlu, yn fwyaf nodedig adlinio prosesau fforensig a ffurfweddu'r system rheoli cynnwys, gan geisio cydbwyso gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac, yn hollbwysig, cynnal amserlen achredu'r heddlu ei hun.

Nid oes gan y timau Archwilio Troseddfannau ac Ymchwilio Fforensig i Wrthdrawiadau Ffyrdd presennol yn Heddlu Dyfed-Powys ddigon o adnoddau ar gyfer anghenion presennol yr heddlu, heb sôn am wasanaeth cydweithredol.  Bydd angen mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau ymrwymiad teg a chymesur gan bob heddlu unigol.

Mae angen system rheoli ansawdd gyffredinol a llywodraethu clir gydag un endid cyfreithiol ar bob maes fforensig achrededig.  Er mwyn cydweithio ym maes fforensig, un system rheoli ansawdd drosfwaol ac un endid cyfreithiol sengl yn unig y gellir ei chael, a chytunir y bydd Heddlu De Cymru yn gyfrifol am y cyfrifoldeb hwn.  Mae yn golygu bydd system bresennol rheoli ansawdd Heddlu Dyfed-Powys yn peidio â gweithredu ymhen amser.  Fodd bynnag, mae cod ymarfer cyfredol y Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig yn cyfeirio at sawl disgyblaeth, o'r enw gweithgareddau gwyddor fforensig, nad ydynt yn cael eu darparu gan yr adran Gwasanaethau Fforensig.  Er enghraifft, mae dadansoddiad data cyfathrebu, a gwblhawyd gan ddadansoddwyr Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu, wedi'i restru, sy'n golygu y bydd yn rhaid rheoli eu gweithgareddau o dan system rheoli ansawdd ar ryw adeg.  Un o fanteision cydweithio ym maes fforensig yw osgoi dyblygu ac mae defnyddio un system rheoli ansawdd ar draws y rhanbarth yn lle tair yn rhan sylweddol o hyn.

Mae ceisio cydweithio fel un maes pan fo systemau a phrosesau ehangach yr heddlu yn wahanol e.e. Niche, yn cyflwyno heriau sylweddol o ran alinio prosesau.  Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gellir cyflawni cysondeb a safoni ar draws y rhanbarth ac felly'n lleihau arbedion effeithlonrwydd o ran cost.

b) **Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data**

Rhoddodd y Prif Arolygydd Dros Dro, Delyth Evans, bapur diweddaru i'r bwrdd. Mae wedi cael y dasg o adolygu proses yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data, nodi arbedion effeithlonrwydd, a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r DBG yn rheolaidd a'i olrhain gan y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth.

Mae Asesiadau cyfredol o'r Effaith ar Ddiogelu Data sydd ar y gweill yn cael eu hadolygu a'u graddio yn defnyddio coch, melyn, neu wyrdd i'w cwblhau, ac mae gwasanaethau a phrosesau sy'n destun oediad oherwydd oedi o ran proses yr Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael eu blaenoriaethu.

Mae adolygiad ar y gweill o holl ffolderi Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a gedwir gan y tîm Rhannu Gwybodaeth (dyluniwyd ffurflen Microsoft ar gyfer dadansoddi data) er mwyn llunio cofrestr gyflawn o'r holl Asesiadau llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data a ffurflenni sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a'u cyflwr (os ydynt wedi'u llofnodi'n gywir/angen eu hadolygu) er mwyn caniatáu goruchwyliaeth a chraffu yn y dyfodol.

Mae adolygiad o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gynnal gan yr Uned Gwella Gwasanaethau, a sefydlwyd gweithgor sy'n cyfarfod bob pythefnos, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae ymatebion meincnodi wedi dod i law gan heddluoedd eraill ac mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae ymgysylltiad wedi'i wneud â nifer o ddefnyddwyr terfynol, ac mae pawb yn cytuno bod angen symleiddio'r broses.

Y prif gamau gweithredu sydd ar y gweill yw creu templedi Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data newydd i wneud y 'ffurflen sgrinio' yn haws ei defnyddio, cwblhau a mapio proses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data newydd, creu dogfennau hyfforddi a chanllawiau defnyddwyr, a dylunio system ffeilio newydd i olrhain perfformiad a gwella gwelededd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu hyfforddiant gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac mae adolygiad o ddeunydd DPPi2 cyfredol tudalennau mewnrwyd yr heddlu wedi'i ddyrannu.

Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl y byddai'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y gweithgor i'r Prif Weithredwr.

**Cam gweithredu: Cynnwys diweddariadau ynghylch yr Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data fel eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona.**

**c) Gwerthusiad Model Rhingyll Powys**

Trafododd y bwrdd y gwerthusiad o fodel rhingyll Powys.
Cododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr adborth a gafwyd gan staff a oedd yn yr adroddiad pan ofynnwyd i staff yn benodol am eu barn ar effaith y treial gogledd / de ar feysydd ffocws allweddol gan gynnwys;

— y gallu i reoli anghenion/llesiant unigol,
— y gallu i nodi/mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad,
— y gallu i oruchwylio staff yn iawn.

Roedd yr adborth yn amrywio ar draws y rhengoedd. Roedd barn yr arolygwyr yn gymysg, teimlai rhingylliaid a chwnstabliaid fod yr effaith yn negyddol.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Gwnstabl ddiweddariad ar y newidiadau a wnaed gan yr heddlu ym Mhowys yn ystod y cynllun peilot. Yn ystod y cyfnod peilot cafwyd gwared ar ringylliaid craidd Sir Faesyfed gan fod mwy o angen i atgyfnerthu'r model goruchwylio ar draws yr Uned Reoli Sylfaenol a chydbwyso lefel goruchwylio troseddau.
Roedd y cynnig yn golygu bod goruchwyliaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed yn cael eu huno â'r 'de', gyda 'rhingylliaid y de' yn gyfrifol am oruchwyliaeth troseddau / tîm ar gyfer y ddwy adran. Byddai'r model hwn yn gweld dosbarthiad mwy cyfartal o oruchwylio troseddau/galw cyffredinol.

Roedd adlinio'r rhingylliaid yn caniatáu i dri rhingyll symud i rota dair wythnos gan ddod yn Rhingylliaid Cydnerthedd i bob pwrpas, ac mae'r ddau rhingyll sy'n weddill yn cymryd rolau cydnerthedd yn y ddalfa.

**4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl**

**a) A allai'r Prif Gwnstabl amlinellu pa gynnydd mesuradwy y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i wneud hyd yn hyn yn erbyn yr amcanion a'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad i'r bwrdd. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol sy'n ymwneud â hil wedi bod yn mynd rhagddo ers 9 Ionawr 2025. Mae'r hyfforddiant yn sesiwn wyneb yn wyneb tair awr o hyd dan arweiniad hyfforddwyr allanol (No Boundaries Cyf). Mae dros 300 o unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn. Mae'r adborth a gafwyd ynghylch yr hyfforddiant hyd yn hyn yn gadarnhaol.

## Camau gweithredu: Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fynychu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol sy'n ymwneud â hil.

Mae'r heddlu wedi cofrestru ar gyfer Arolwg Ein Gweithlu Du (ton 3). Mae'r arolwg cenedlaethol pwysig hwn yn archwilio profiadau bywyd swyddogion a staff heddlu Du ac o dreftadaeth Du yn yr heddlu. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a'r Coleg Plismona. Mae gan yr arolwg gefnogaeth cymdeithasau heddlu Du cenedlaethol a lleol. Mae'r heddlu wedi cymryd rhan yn nhon 1 a thon 2 o'r blaen. Mae'r heddlu wedi cael gwybod y cafwyd cyfradd ymateb uwch o'r rhai cymwys sy'n cofnodi eu bod o Heddlu Dyfed-Powys nag yn nhon 2, yn ogystal ag o'i gymharu â heddlu eraill yn ystod y don hon (ar gyfer Cymru a Lloegr, cyfradd ymateb gyfartalog yr heddlu oedd 35%, a'r gyfradd ymateb derfynol ar gyfer Dyfed-Powys oedd 67%; dylid nodi bod nifer y staff/swyddogion cymwys yn isel). Cyhoeddir yr adroddiad yn ddiweddarach eleni.

Darparwyd hyfforddiant ar ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar 25 Mawrth 2025. Mae'r deunyddiau a rannwyd yn dilyn yr hyfforddiant wedi'u lanlwytho i'r fewnrwyd gyda chaniatâd darparwr yr hyfforddiant.

Mae blwyddyn adolygiadau datblygu perfformiad wedi ailagor ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cynnwys amcan sy'n gysylltiedig â diwylliant ar gyfer pob swyddog ac aelod o staff: Cyfrannu'n rhagweithiol at feithrin diwylliant gweithle sy'n weithredol gynhwysol ac nad yw'n gwahaniaethu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n herio rhagfarn, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn sicrhau bod pob cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn dilyn amcan tebyg yn ystod y flwyddyn adolygu datblygu perfformiad ddiwethaf (2024-25) yn ymwneud â'r cynlluniau gweithredu yn ymwneud â hil a diwylliant y gweithle.

Mae pecyn bwrdd metrigau pobl yn cael ei ddatblygu gan yr Uned Gwella Gwasanaethau ac Adran Datblygu Pobl a'r Sefydliad—mae hyn yn rhoi cyfle i olrhain newidiadau a thueddiadau mesuradwy o fewn data ein gweithlu. Mae'r pecyn yn cynnwys yr holl fetrigau ar wahân a rannwyd yn flaenorol gan yr holl dimau yn Adran Datblygu Pobl a'r Sefydliad, bellach wedi'u cyflwyno mewn un lle. Mae'r pecyn wedi caniatáu inni ystyried metrigau pwysig (e.e. metrigau i alluogi olrhain a oes nifer anghymesur o unigolion sy'n gadael y sefydliad sydd wedi cofnodi bod ganddynt nodweddion gwarchodedig).

Mae'r heddlu wedi nodi bwlch posibl o ran eu data gweithlu (gwybodaeth sy'n sensitif). Er bod ganddyn nhw gyfradd uchel o unigolion yn datgelu gwybodaeth sensitif adeg recriwtio, nid yw'r wybodaeth yn trosglwyddo'n awtomatig i gofnodion adnoddau dynol a gofynnir i swyddogion/staff

gwblhau'r wybodaeth hon eto (fel arfer yn ystod y cyfnod sefydlu). Fodd bynnag, mae'r heddlu'n cydnabod bod y cais hwn yn cael ei wneud ar adeg pan fo swyddogion/staff yn ymgartrefu ac y gallai fod oedi oherwydd amlder sesiynau sefydlu (er enghraifft, ar gyfer staff yr heddlu). Nid oes mecanwaith i ofyn i unigolion gwblhau neu adolygu'r data/gwybodaeth a gedwir yn rheolaidd. Er bod cwblhau hyn yn ddewisol, mae opsiynau i ddewis 'gwell gennyf beidio â dweud'. Mae cyfarfodydd â rhanddeiliaid mewnol wedi'u cynnal i ystyried ffyrdd o annog unigolion i gofnodi eu data.

**b) Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amrywiaeth o fewn y gweithlu, yn enwedig o ran recriwtio, cadw staff, a chynnydd gyrfa swyddogion a staff o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? A ydych chi'n fodlon bod amrywiaeth bresennol y gweithlu yn gynrychioliadol o'n poblogaeth yn Nyfed a Phowys?**

Nid yw amrywiaeth y gweithlu yn gwbl gynrychioliadol o'n poblogaeth, ond mae'r heddlu'n cymryd camau cadarnhaol i ddod yn fwy cynrychioliadol. Mae'r gweithlu cyffredinol yn gymharol gytbwys gyda 51.7% o ddynion a 48.3% o fenywod, er y gall y data hwn amrywio rhwng swyddogion a staff. Mae 38.5% o swyddogion yn fenywod, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.7%. Mae 61.7% o staff yr heddlu yn fenywod.

Gwelwyd twf yn niferoedd y rheolwyr canol a rheolwyr uwch sy'n fenywod, fel y manylir isod. Mae gan yr heddlu bellach Brif Uwch-arolygydd Dros Dro sy'n fenyw, sef swyddog benywaidd uchaf ei safle yn yr heddlu a dau Gomander yr Uned Reoli Sylfaenol sy'n fenywod, sy'n gynnydd sylweddol, ac nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y ffigurau hyn.

Nid yw ein hadroddiadau ar nodweddion gwarchodedig eraill yn ddibynadwy, oherwydd y niferoedd uchel o gofnodion 'dim data' ym mhob categori.

Mae hyn wedi cael ei nodi fel risg ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Yn benodol:

- Ymgyrch Diogel i Ddweud i annog staff i ddiweddaru eu cofnod myTrent gyda manylion eu nodweddion personol, sydd wedi'u rhannu ar DPPi2 a'r Informer.
- Archwilio sut y gellir trosglwyddo data a gesglir yn ein system recriwtio, Oleeo, (cyfradd cwblhau uchel yn gyffredinol) i Trent ar ôl penodi unigolyn.

O ran recriwtio, mae’r heddlu wedi sylwi ar fwy o amrywiaeth yn ei broses ymgeisio, gyda chefnogaeth rhai o ddigwyddiadau denu talent yr heddlu. Yng nghanolfan asesu ddiweddaraf yr heddlu, roedd rhaniad mwy cyfartal o ran rhywedd a chynrychiolaeth fwy o ran grwpiau ethnig.

Mae rhywfaint o waith i’w wneud i atynnu unigolion i Geredigion a Sir Benfro, ac mae hyn wedi cael ei weithredu drwy’r Grŵp Adnoddau Strategol.

Mae Ysbrydoli yn gynnig newydd gan y tîm Arweinyddiaeth o fewn yr heddlu a disgwylir i’r cwrs peilot cyntaf cael ei gynnal ym mis Mai 2025. Mae’n gwrs adeiladu hyder diwrnod o hyd a gyflwynir ar-lein ac sydd ar agor i unrhyw gwnstabl neu aelod o staff nad yw mewn swydd oruchwyliol o unrhyw grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae rhaglen Anelu’n Uchel y Coleg Plismona wedi’i hanelu at lefel Prif Arolygydd a staff yr heddlu cyfatebol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhaglen ddatblygu ar gyfer uwch-arweinwyr y dyfodol. Mae darpariaeth diweddar ar gael yng nghynllun hyfforddiant wedi’i gostio’r heddlu i gefnogi ymgeiswyr ar gyfer 2025-26.

Nid yw’r ysgolion haf a gaeaf a gynigir gan Academi Wales wedi cael eu mynychu’n ddiweddar. Mae’r rhain bellach wedi cael eu hailgyflwyno ac mae gennym swyddogion/staff a fydd yn eu mynychu.

Mae’r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn parhau i gefnogi o fewn y broses recriwtio a chynhaliodd sesiwn ymgyfarwyddo ar gyfer unigolion sy’n ymgeisio i fod yn swyddogion heddlu cyn y ganolfan asesu ar-lein (28 Mawrth 2025) a sesiynau ymgyfarwyddo ar gyfer unigolion sy’n ymgeisio i fod yn swyddogion heddlu cyn y cyfweliadau (a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2025 a 1 Ebrill 2025). Mae’r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn parhau i ddarparu cefnogaeth i ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn rolau eraill o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

Lansiwyd y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol newydd tua diwedd y llynedd. Mae’r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn canolbwyntio o’r newydd ar gadw staff a datblygu, gan weithio i sicrhau bod swyddogion, staff, a rheolwyr llinell yn deall beth ydyw a sut y gall fod o fudd i Heddlu Dyfed-Powys. Mae camau ymarferol wedi’u cymryd, er enghraifft, ymgorffori gweithredu cadarnhaol mewn prosesau recriwtio mewnol (mae enghreifftiau ymarferol yn cynnwys ymgorffori gweithredu cadarnhaol mewn hysbysebion mynegi diddordeb, gan gynnwys gwybodaeth yn rhifyn nesaf y prosbectws arweinyddiaeth, rhannu syniadau mewn sesiynau hyfforddi arweinyddiaeth, gweithio gyda staff recriwtio/denu talent a’r tîm dysgu a datblygu).

Mae rhwydweithiau cymorth y staff yn darparu profiad byw gwerthfawr a chyfle i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn groesawgar ac yn gynhwysol. Mae’r adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a’r Gymraeg (sy’n cefnogi’r rhwydweithiau) wedi sicrhau bod gan bob rhwydwaith gadeirydd addas a bod ganddynt adnoddau digonol a theg i barhau â’u gwaith. Mae Cymdeithas yr Heddlu Cristnogol a Rhwydwaith y Cyn-filwyr ill dau wedi bod heb gadeiryddion ers sbel—mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod trosglwyddo a sefydlu digonol ar waith. Mae’r heddlu’n parhau i wirio llesiant ein rhwydweithiau—mae’r uned iechyd galwedigaethol wedi cefnogi trwy ddarparu gwiriadau llesiant/iechyd meddwl i aelodau’r rhwydwaith yn ystod cyfnodau o ansicrwydd (er enghraifft, o ganlyniad i ddigwyddiadau cenedlaethol). Caiff swyddogion a staff newydd eu hysbysu am y rhwydweithiau mewn sesiynau sefydlu. Darperir nodiadau atgoffa mewn sesiynau arweinyddiaeth hefyd.

Mae’r Panel Adolygu Anghymesuredd Fetio yn cyfarfod i drafod ymgeiswyr fetio y gwrthodwyd caniatâd fetio iddynt, sydd wedi cofnodi nodwedd warchodedig. Pwrpas y panel yw adolygu a fu unrhyw anghymesuredd yn y broses benderfynu. Mae’r panel yn cynnwys Prif Uwch-arolygydd, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a’r Gymraeg, cynrychiolydd o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yn ogystal â chadeiryddion o rwydweithiau cymorth staff lle bo’n briodol. Bu tri chyfarfod y Panel Adolygu Anghymesuredd ers mis Ebrill 2024. Mae cyfanswm o bum ymgeisydd wedi cael eu trafod.

**c) A yw’r heddlu wedi wynebu unrhyw heriau neu rwystrau penodol wrth ddatblygu gwaith sy’n ymwneud â Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, a sut ydych chi’n mynd i’r afael â nhw i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud?**

Mae swydd wag ar gyfer Cydlynydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltu yn parhau i fod yn her. Hysbysebwyd y rôl drwy ddatganiad o ddiddordeb. Mae ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus ac ar hyn o bryd yn trafod dyddiad cychwyn a rhyddhau o adran arall yn yr heddlu. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rhywfaint o’r gwaith yn cael ei wneud gan aelodau eraill o Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a’r Gymraeg, fodd bynnag, gall hyn gael effeithiau niweidiol ar feysydd gwaith eraill.

Sicrwydd data – Mae “bwlch data” mewn data’r gweithlu wrth ystyried gwybodaeth sy’n sensitif. Mae hyn yn peri risg o ran cael dealltwriaeth lawn o’r gweithlu. Ffactor(au) lliniarol: cynhaliwyd cyfarfod â rhanddeiliaid mewnol allweddol ar 2 Ebrill 2025 i ystyried camau cychwynnol i sicrhau

yr eir i'r afael â'r "bwlch data", gan ystyried profiad defnyddiwr hefyd (er enghraifft, cyflwynir y data yn ystod y cam recriwtio, ond disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ddiweddaru hyn eto gan ddefnyddio iTrent yn fuan ar ôl ymuno).

Galw am ddata – er bod data wedi'i gyflwyno i'r timau canolog ar gyfer Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, ceisiwyd estyniadau i'r dyddiad cau oherwydd y galw/swyddi gwag yn yr Uned Gwella Gwasanaethau ym mis Rhagfyr 2024/Ionawr 2025. Cytunwyd ar y rhain ymlaen llaw gan y timau cenedlaethol a Heddlu Dyfed-Powys.

Newidiadau o fewn timau cenedlaethol a chamlinellu o ran cyfnodau adrodd—mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wedi profi newidiadau. Er enghraifft, bydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu nawr yn symud i fodel matrics aeddfedrwydd, a fydd yn golygu ailalinio sut mae'r gweithgor yn casglu data ar gyfer diweddariadau. Mae hyn yn dilyn cyfnod o ansicrwydd wedi i Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du tynnu ei chefnogaeth dros dro (ac mae'r gymdeithas wedi cadarnhau ei chefnogaeth am gyfnod dros dro yn unig). Mae ffrydiau gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru hefyd wedi newid o bedwar i dri. Mae cyfnod adrodd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn dilyn y flwyddyn ariannol, tra bod cyfnod adrodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn cyd-fynd â'r flwyddyn galendr. Mae angen gwaith pellach i ddeall a oes meysydd o gysondeb wrth adrodd yn erbyn y ddau gynllun yn dilyn y newidiadau.

Trafododd y bwrdd y digwyddiadau Ymgysylltu a Disgwyliadau a'r cyflwyniad a ddangoswyd yn y digwyddiadau hyn, yn benodol y sleidiau yn ymwneud â diwylliant a safonau proffesiynol.

**Camau gweithredu: y cyflwyniad Ymgysylltu a Disgwyliadau i'w rannu â SCHTh.**

## 5. I'w nodi

### a) Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar waith heddlu da, yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

### b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a'i gyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu cymunedol ym Mhowys, cyfarfod cyntaf pwyllgor dethol y CHTh a'i bresenoldeb yn nigwyddiad bwrdd crwn ar drais a diogelwch mewn ysgolion a cholegau.

**c) Diweddariad ar gyllid**

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid adroddiad diweddaru i'r bwrdd a thrafododd y bwrdd yr wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys sefyllfa ariannol bron yn lled-gyflawn y Bwrdd Plismona o ran refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Mae'n debygol y bydd y ffigurau hyn yn newid gan fod yn rhaid i'r llyfrau aros ar agor nes bod yr archwiliad wedi'i gwblhau, sef diwedd mis Hydref 2025 fan bellaf.

Adroddwyd ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2024-25 yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn a thybiwyd y byddai rhai addasiadau a thanwariant wrth osod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025-26. Mae'r sefyllfa gyffredinol o ran cronfeydd arian wrth gefn tua £3.7 miliwn yn well nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb gyda £2.2 miliwn o hyn yn gysylltiedig â chyfalaf a £1.5 miliwn yn gysylltiedig â refeniw / cronfeydd arian.

O ran cyfalaf, gosododd yr heddlu gyllideb ddiwygiedig o £16.6 miliwn ar gyfer 2024-25 ym mis Tachwedd 2025. Roedd yr alldro gwirioneddol yn £12.9 miliwn, sef tanwariant o £3.7 miliwn.

Ar gyfer cyllidebau refeniw, mae symudiadau'r cronfeydd arian wrth gefn £1.5 miliwn yn well na'r rhai a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb ar gyfer yr heddlu a'r comisiynydd.

Mae'r symudiad yn erbyn balansau cronfeydd arian a chomisiynu SCHTh £412,000 yn fwy ffafriol nag a ragwelwyd / a gyllidebwyd. Yn yr un modd, mae gwariant yn erbyn eitemau i'w hariannu o gronfeydd arian wrth gefn a glustnodwyd £361,000 yn fwy ffafriol.

Mae oedi wrth gynnal asesiadau iechyd gwael ar gyfer rhai swyddogion wedi golygu bod angen creu cronfa arian wrth gefn newydd o £216,000 ar gyfer swyddogion y disgwylir y byddant yn cael eu hasesu'n feddygol fel rhai sy'n debygol o fod yn analluog yn barhaol i gyflawni dyletswyddau swyddog ac na ellir eu hadleoli i rôl blismona arall sydd ar gael gydag addasiadau rhesymol.

Y tanwariant net sy'n weddill gan yr heddlu yw £526,000 (£685,000) sydd tua £159,000 yn llai na'r hyn a ragwelwyd ar gyfer cyfnod 11.

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn, rhagwelir y bydd y symudiad ar refeniw, cronfeydd cyfalaf, a benthyca cyfalaf yn negyddol iawn dros y pedair blynedd nesaf gyda balans 2029 yn parhau i fod tua £61.6 miliwn ac o'r swm hwnnw bydd tua £55.9 miliwm yn weddill y ddyled allanol ar hyn o bryd. Cymerwyd benthyciad allanol o £10 miliwn am flwyddyn ym mis Chwefror 2024 a chynyddwyd hyn i £20 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr iawn mewn perthynas â setliadau, cyllid fformiwla, diwygio'r heddlu, a dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod. Bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn anodd, gan fod y llywodraeth yn wynebu nifer o heriau strategol o ran trethiant a gwariant dros y tair blynedd ariannol nesaf sy'n debygol o effeithio ar Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid o safbwynt ariannol.

Mae'r broses o gau cyfrifon yn dal i fynd rhagddi, a'r bwriad yw cwblhau'r cyfrifon drafft wedi'u llofnodi yn unol â gofynion statudol erbyn diwedd mis Mehefin 2024 yn barod i'w cyflwyno i'w harchwilio. Gyda'r broses yn dal i fynd rhagddi, a heb ddisgwyl i'r archwiliad gan Archwilio Cymru gael ei gwblhau tan fis Hydref 2025 fan bellaf, mae siawns dda y bydd angen gwelliannau pellach i'r sefyllfa ariannol hon.

Ar gau 2024-25, clustnodwyd cronfa arloesi comisiynwyr o £1 miliwn tuag at ddarparu gwasanaethau estynedig ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys estyniad i gwmpasu gwasanaethau ychwanegol i'r rhai mewn addysg uwch. Cafwyd cyflwyniad yr wythnos diwethaf a oedd yn cyflwyno amrywiol opsiynau ar gyfer defnyddio hyn dros y pedair blynedd nesaf. Cynigir, lle bo modd, fod tanwariant SCHTh a'r heddlu ar gyfer 2024-25 a adlewyrchir uchod yn cael ei glustnodi tuag at y fenter hon a fyddai'n cynyddu'r gronfa hon i £2.029 miliwn.

Gyda'r cofnodion wrth gefn tybiedig yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig eisoes wedi'u prosesu, mae balans sy'n weddill o £653,000 mewn refeniw a £2.095 miliwn ar gyfer cyfalaf i'w brosesu o hyd.

Fel yr adroddwyd drwy gydol y flwyddyn, mae cyflog swyddogion tua £900,000 o dan y gyllideb oherwydd rhagor o ymadawyr ac oedi wrth dderbyn trosglwyddai ar ôl cynyddu'r dyfarniad cyflog. Mae gwariant goramser tua £200,000 dros y gyllideb ac mae costau gwyliau banc tua £100,000 o dan y gyllideb.

Mae cyllidebau staff yr heddlu tua £400,000 dros y gyllideb gyda'r dyfarniad cyflog ychwanegol yn cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae costau goramser staff yr heddlu hefyd yn uwch na'r gyllideb.

Mae costau pensiwn o dan y gyllideb o £200,000, fodd bynnag, mae oedi o ran asesiadau meddygol wedi cyfrannu at hyn fel yr amlinellwyd uchod. Mae cronfa wrth gefn i'w chario drosodd yn erbyn y gyllideb ar gyfer afiechyd wedi'i chynnwys i leihau effaith hyn yn 2025-26.

Gorffennodd y llinell recriwtio, hyfforddi, ac yswiriant £200,000 o dan y gyllideb gyda llithriad hyfforddi o £100,000 ac arbediad o £50,000 yn erbyn yswiriant yn cyfrannu at hyn.

Mae rhywfaint o waith cyfalaf sylweddol a gwaith prosiect arall, gan gynnwys cynlluniau cynaliadwyedd, wedi cyfrannu at danwariant o £200,000 mewn costau eiddo.

Mae penawdau cyllideb eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau tua £100,000 gydag oedi wrth weithredu'r system rheoli cynnwys a'r datrysiad teleffoni yn yr ystafell reoli yn cyfrannu.

Mae costau dadansoddi fforensig a dadansoddi ffonau £500,000 dros y gyllideb oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau meddygol newydd yn y ddalfa a oedd yn cynnwys gwasanaeth ymgorfforedig yn y Drenewydd.

Mae cyllidebau cydweithio—sydd wedi bod yn anodd iawn i'w rhagweld yn ystod y blynyddoedd diwethaf—ond ychydig dros y gyllideb o £100,000 yn 2025-26 gyda'r trefniadau codio newydd yn cynorthwyo wrth osod a monitro cyllidebau.

Derbyniodd yr heddlu grant ychwanegol o £1.2 miliwn tuag at y dyfarniad cyflog uwch a rhai grantiau ychwanegol ar gyfer awtomeiddio prosesau robotig a thuag at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r amrywiad mewn incwm yn bennaf oherwydd derbynion llog gyda chyfraddau llog yn aros yn uwch am hirach oherwydd pwysau chwyddiant parhaus. Cafwyd gwelliant o ran llif arian hefyd oherwydd cafwyd grantiau'n gynnar ac oherwydd llithriant yn erbyn cynlluniau cyfalaf. Mae'r amrywiad hwn wedi'i gymhwyso fel Cyllid Refeniw Uniongyrchol ychwanegol o gyfalaf i wrthbwyso oedi o ran derbynion cyfalaf eiddo o £1 miliwn tan 2025-26.

O ran trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn, roedd y rhain £1.5 miliwn yn llai na'r gyllideb.

O ran gwariant cyfalaf ar gyfer 2024-25, mae'r heddlu wedi cael trafferth cwblhau prosiectau cyfalaf Ystadau a rhai prosiectau cyfalaf TGCh cyn 31 Mawrth gyda'r sefyllfa gwariant ariannol tua £12 miliwn yn is na'r gyllideb

wreiddiol a £3.7 miliwn yn is na'r sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig a ragwelwyd ym mis Tachwedd.

Mae oedi o ran cynllunio mewn perthynas â'r fferm solar, wrth drosglwyddo Tŷ Brycheiniog yn Aberhonddu ac mewn perthynas â'r ystâd yn Abergwaun a Doc Penfro wedi cyfrannu at y tanwariant yn y cronfeydd cyfalaf. Llwyddodd yr heddlu hefyd i leihau gofynion gwariant ar gyfer atgyweiriadau i do Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ac ar gyfer llawer o brosiectau cynaliadwyedd. Mae llithriad cyffredinol o £3.7 miliwn wedi'i nodi.

Cynhelir trafodaeth lawn o gynlluniau gan gynnwys y blaengynllun yn y Grŵp Ystadau Strategol y mis nesaf ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas ag elfennau'r Ystadau.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid i'r bwrdd gymeradwyo'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a'r balansau terfynol. Gofynnwyd i'r Bwrdd Plismona gymeradwyo'r llithriant mewn cyllidebau cyfalaf fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'w ychwanegu at y cyllidebau gwreiddiol ar gyfer 2025-26. Bod unrhyw newidiadau yn y sefyllfa refeniw a allai fod yn angenrheidiol oherwydd y broses gau barhaus yn cael eu hadlewyrchu yn y balansau lliniaru yswiriant neu gronfeydd cyfalaf wrth gefn.

**Penderfyniad: cymeradwyodd y bwrdd yr argymhellion i gymeradwyo'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a'r balans terfynol.**

### ch) Diweddariad model gweithredu'r heddlu

Mae'r heddlu wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd Rhaglen Adolygu'r Heddlu bellach yn dod i ben. Er gwaethaf hyn, bydd gwaith yn parhau i gyflwyno ffrydiau gwaith model gweithredu'r heddlu hyd at eu cwblhau dan arolygiaeth yr uwch noddwyr.

Bydd cyflwyno ail a thrydydd algorithm offer ymchwilio'n seiliedig ar dystiolaeth Ebit ar gyfer troseddau difrod troseddol a siop-ladrad yn cael eu gwireddu erbyn 14 Mai 2025.

Ar 16 Rhagfyr 2024, penderfynodd uwch noddwyr y bydd y pedwerydd algorithm yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyswllt â throseddau aflonyddu a chyfathrebu maleisus. Mae algorithm pedwar wedi'i ddatblygu ac mae'n barod i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn dilyn cyflwyniad y gwerthusiad chwe mis algorithm un ar gyfer troseddau ymosodiad cyffredin a threfn gyhoeddus. Diweddariad i ddilyn ar gyfer cyfarfod nesaf y bwrdd.

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ffrydiau gwaith eraill gan gynnwys strwythur plismona gweithredol uwch (model gweithredu timau plismona ac atal bro, cofnodi troseddau a'r Uned Rheoli Cofnodion).

### 6. I'w benderfynu

### a) Gorsaf heddlu a phrosiect y ddalfa yn Aberhonddu

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ddiweddariad ar y prosiect i gaffael gorsaf heddlu a dalfa newydd yn Aberhonddu, prosiect sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers 2021. Daeth ailasesiad o'r opsiynau ariannol ar y pryd i'r casgliad mai cydweithio â Chyngor Sir Powys ynghylch caffael Tŷ Brycheiniog oedd yr opsiwn gorau o ran gwerth am arian i fynd i'r afael â'r gofyniad gweithredol hirdymor. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys uned cynnal a chadw cerbydau newydd ar y safle.

Clustnodwyd cyllideb o £8 miliwn ar gyfer y cynllun sydd wedi'i chwyddo ers hynny i £8.490 miliwn yn fersiwn gyfredol 2025-26 o'r rhaglen gyfalaf.

Ystyriodd y Grŵp Ystadau Strategol agweddau ariannol y prosiect ac agweddau heb fod yn ariannol y prosiect. Mae'r Grŵp Ystadau Strategol o'r farn mai opsiwn saith yw'r opsiwn a ffefrir i symud ymlaen fel yr amlinellwyd ym mhapur Cynllun Gofodol Cymru.

Ar y cam hwn, y bwriad yw ymrwymo tua £251,000 o ffioedd a fyddai'n mynd â'r prosiect drwy'r broses ddylunio, cynllunio, a chaffael hyd at ddiwedd Cam 4 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Os bydd y costau o fewn y gyllideb yn y cam nesaf hwn, bydd y cynllun yn dychwelyd i'r cam llywodraethu i'w gymeradwyo cyn symud ymlaen i'r cam adeiladu (Cam 5 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain – y cam adeiladu). Mae'r costau hyn eisoes wedi'u hymgorffori yn ffigur y gyllideb o £8.994 miliwn sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd o ran cost a chyflawnadwyedd y cynllun.

**Penderfyniad: cymeradwyodd y bwrdd yr argymhellion bod opsiwn 7 yn cynrychioli'r opsiwn a ffefrir i symud ymlaen a bod un safle yn seiliedig ar ddull adeiladu modiwlar a thraddodiadol i'w fabwysiadu ar gyfer Tŷ Brycheiniog.**

**Cytunodd y bwrdd i gynyddu'r ddarpariaeth gyllidebol i £8.994 miliwn trwy ddefnyddio £500,000 o'r gronfa wrth gefn a neilltuwyd o fewn y rhaglen gyfalaf bresennol.**

**Cytunodd y bwrdd ar y dull caffael a'r ffioedd a amlinellwyd yn adroddiad Cynllun Gofodol Cymru. Y bwriad yw contractio dau gynnyrch ar wahân gydag un lot yn canolbwyntio ar adeiladu celloedd uned modiwlar newydd gan gontractwr haen 2 trwy dendr cystadleuol a reolir gan dîm arbenigol o fewn Cynllun Gofodol Cymru ac ail lot yn ymgorffori adnewyddu'r swyddfa ac adeiladu'r uned cynnal a chadw cerbydau trwy fframwaith presennol.**

## 7. Unrhyw fater arall

### a) Cymysgedd y gweithlu: Diweddariad ar warant plismona bro a chyllid praesept

Darparwyd sesiwn friffio i'r bwrdd a oedd yn ceisio rhoi asesiad o gronoleg y rhaglen a chynnydd o ran cryfhau timau plismona ac atal bro a phlismona ymateb trwy ddau ffrwd ariannu a ddarparwyd trwy warant plismona bro Llywodraeth y DU ac arian a ddyfarnwyd gan gynnydd praesept y CHTh.

Cododd y CHTh y risgiau a'r heriau a nodwyd yn y sesiwn friffio. Roedd y rhain yn cynnwys capasiti swyddogaethau ategol, y galw ar draws yr holl adrannau sy'n gysylltiedig â phrosesau recriwtio, sef recriwtio adnoddau dynol, fetio a'r uned iechyd galwedigaethol, yn cynyddu ac mae prosesau newydd o fewn arferion proffesiynol awdurdodedig yn creu galw ychwanegol. Mae'r chwe mis nesaf wedi'u nodi fel rhai arbennig o heriol o ystyried y gweithgarwch cynyddol o ran recriwtio. Y buddiant mewnol sylweddol a'r effaith ar swyddogaethau hanfodol eraill, hyfforddiant, a buddiant rhanddeiliaid allanol.

Cynghorwyd y CHTh y bydd matrics blaenoriaethu recriwtio yn cael ei lunio a fydd yn nodi camau gweithredu ar gyfer y blynyddoedd ariannol cyfredol a blynyddoedd ariannol dilynol.

Mae rolau a nodwyd ar gyfer cymysgedd y gweithlu yn y dyfodol hefyd yn cael eu datblygu i alluogi unrhyw brosesau recriwtio dymunol i gyd-fynd ag amserlenni dyfarnu grantiau yn y dyfodol.

Bydd gwelliant diweddar i Strategaeth Prentisiaethau'r Heddlu hefyd yn cefnogi, yn amodol ar adolygiad llwyddiannus o berfformiad yn y gweithle, gwireddu newidiadau i gymysgedd y gweithlu a rhyddhau swyddogion heddlu.

Mae dau sesiwn friffio wedi'u darparu i uwch-arweinwyr (Uwch-arolygwyr a staff yr heddlu sydd ar radd 'k' ac uwch). Trydydd wedi'i drefnu ar gyfer 23 Mai 2025.

**b) Prosiect Gwydion**

Ystyriodd y bwrdd y llythyr gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod hyn wedi'i gynnwys yn yr agenda i sicrhau bod unigolion perthnasol wedi gweld y llythyr a ddaeth i law.

Gan mai dyma oedd cyfarfod olaf y Bwrdd Plismona y byddai'r Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis yn bresennol ynddo, diolchodd y CHTh i'r Prif Gwnstabl am ei waith o fewn yr heddlu a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.  Ymatebodd y Prif Gwnstabl, gan ddiolch i bawb am eu gwaith.

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 21 Mai 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| **PB 070** | Ceisir diweddariad gan Linda Williams, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad ynghylch pryd y byddai adroddiad adolygiad annibynnol ar ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ystyried gan arweinwyr adnoddau dynol a phryd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Plismona. | Yr heddlu |
| **PB 071** | Cynnwys diweddariadau ynghylch yr Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data fel eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona. | Yr heddlu |
| **PB 072** | Comisiynydd heddlu a throseddu i fynychu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol sy'n ymwneud â hil. | SCHTh |
| **PB 073** | Y cyflwyniad ymgysylltu a disgwyliadau i'w rannu â'r SCHTh. | Yr heddlu |

DIWEDD